**Entrepreneuriaeth a Chyflenwi Llywodraeth Cymru**
**Papur Cefndir ar gyfer Tasglu'r Cymoedd**

Mae Is-adran Entrepreneuriaeth Llywodraeth Cymru yn rhan o Adran yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol.

## Entrepreneuriaeth

Mae'r is-adran Entrepreneuriaeth yn trafod gweithgarwch entrepreneuriaeth a chymorth busnes (BBaCh) ledled Cymru, gan gynnwys:

- Creu eco-system entrepreneuriaeth ar gyfer Cymru i helpu a datblygu Cymru fel y lleoliad gorau i ddechrau a datblygu busnesau.
- Hyrwyddo entrepreneuriaeth ar gyfer pob oedran a chanolbwyntio ar BBaCh yng Nghymru.
- Cefnogi unigolion drwy wasanaeth Busnes Cymru i ddechrau busnesau a helpu BBaCh i greu a datblygu gwaith trwy ddarparu cymorth busnes o safon, cyngor, a gwybodaeth ar draws pob sianel, yn ddigidol, wyneb yn wyneb ac ar y ffôn.

## Busnes Cymru

- Ym mis Ionawr 2012 nodwyd pum blaenoriaeth allweddol gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Micro-fusnesau o dan Gadeiryddiaeth Robert Lloyd Griffiths, gydag argymhellion yn gysylltiedig ag ymwybyddiaeth a mynediad i wasanaethau cymorth busnes; cyllid; mentora a hyfforddiant; caffael yn y sector cyhoeddus a'r baich rheoleiddiol.
- Ym mis Ionawr 2013, sefydlwyd Gwasanaeth Dwyieithog Busnes Cymru mewn ymateb i'r Adroddiad Micro-fusnesau ac adborth gan gwsmeriaid a'r gymuned fusnes i symleiddio a'i gwneud yn haws i gael mynediad i gymorth busnes yng Nghymru. Cafodd y gwasanaeth ei adnewyddu ym mis Ionawr 2016 ac mae'n ei wneud yn haws i ddarpar entrepreneuriaid a busnesau o Gymru, gan gynnwys mentrau cymdeithasol, i gyrraedd yr wybodaeth, y cyngor a'r cymorth sydd ei angen arnynt i ddechrau a datblygu eu busnesau.
- Caiff Busnes Cymru gymorth gan gyllid o Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd. Gydag adferiad yr economi, mae pwyslais cylch cyllido yr UE 2014-20 wedi symud i flaenoriaethu mwy o gymorth i fusnesau sydd â'r posibilrwydd o ddatblygu, ond hefyd yn parhau i gynnig gwasanaeth i bob unigolyn a busnes sy'n addas ar gyfer eu hanghenion gan ddefnyddio gwasanaethau digidol yn ogystal â dulliau traddodiadol.
- Mae Busnes Cymru yn cynnig un pwynt cyswllt i roi cymorth a chyngor i fusnesau ac entrepreneuriaid o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, ac mae ar gael ar-lein drwy busnescymru.gov.wales a'r cyfryngau cymdeithasol; llinell gymorth 03000 6 03000; a thrwy rwydwaith o swyddfeydd ledled Cymru.

- Mae Busnes Cymru yn darparu cyngor cyffredinol a chyngor ar ddechrau busnesau, gwybodaeth a chyfeirio, yn ogystal â 6 maes arbenigol gan gynnwys cydraddoldeb ac amrywiaeth; defnyddio adnoddau'n effeithiol; masnach rhyngwladol; sgiliau; caffael; a mentora.

Mae prif weithgareddau Busnes Cymru yn cynnwys:

- Mae Llinell Gymorth Busnes Cymru yn darparu gwasanaeth dwyieithog ar gyfer unigolion a busnesau sy'n ceisio cael cyngor, gwybodaeth a gwasanaeth cyfeirio i helpu iddynt ddechrau a datblygu eu busnesau.

- Mae gwefan Busnes Cymru a sianeli cysylltiedig ar y cyfryngau cymdeithasol http://busnescymru.gov.cymru/ sy'n cynnwys Gwasanaeth Cymorth Busnes Ar-lein (BOSS) yn darparu cyrsiau busnes wyneb yn wyneb Llywodraeth Cymru ar-lein ac yn cynnig mynediad yn ôl y galw at wybodaeth i helpu unigolion i ddechrau a datblygu busnesau.

- Mae cyngor cyffredinol, cyngor ar gydraddoldeb, yr amgylchedd a chaffael a chymorth gyda masnach ryngwladol ar gael, yn ogystal â gwybodaeth a gwasanaeth cyfeirio.

- Cymorth tendro ymarferol, gan gynnwys digwyddiadau Cwrdd â'r Prynwr a gweithdai Sut i Dendro.

- Mae Gwasanaeth Mentora Busnes Cymru yn darparu cymorth mentora gan ystod eang, amrywiol o bobl fusnes brofiadol.

- Mae Busnes Cymru yn rhoi mynediad i gyllid, gan gynnwys Cronfa Fenthyciadau Microfusnesau Cymru a Benthyciadau Dechrau Busnes.

- Mae Rhaglen Twf Cyflym Busnes Cymru yn rhoi cymorth arbenigol twf uchel wedi'i deilwra ar gyfer busnesau sydd ag uchelgais i dyfu'n sylweddol cyn dechrau'r busnes ac wedi hynny.

- Mae Busnesau Cymdeithasol Cymru yn rhoi cyngor a chymorth i'r rhai hynny sy'n ystyried dechrau neu gynnal busnes cymdeithasol.

- Mae GwerthwchiGymru yn ffynhonell wybodaeth bwysig a phorthol caffael a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i helpu busnesau ennill contractau gyda'r sector cyhoeddus ledled Cymru.

- Mae'r Cyfeirlyfr Busnesau Cymru yn rhoi cyfle i fusnesau yng Nghymru hyrwyddo eu nwyddau, eu gwasanaethau a'u safon uchel i fusnesau eraill ac i ddefnyddwyr.

Gwasanaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid Busnes Cymru

Mae y Gwasanaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid wedi ei ddarparu hefyd o dan fodel Busnes Cymru, ac mae'n cefnogi'r genhedlaeth nesaf o entrepreneuriaid ifanc yng

Nghymru ac yn annog pobl ifanc i fod yn entrepreneuraidd gan helpu'r rhai hynny sydd â diddordeb dechrau busnes i ddatblygu eu syniadau. Mae'r gwasanaeth yn ceisio annog pobl ifanc i greu uchelgais a gwireddu eu potensial i greu cyfleoedd cyffrous iddynt eu hunain ac eraill. Mae'r gweithgarwch yn cynnwys:

- Mae Syniadau Mawr Cymru yn cefnogi'r genhedlaeth nesaf o entrepreneuriaid yng Nghymru ac yn annog pobl ifanc i fod yn entrepreneuraidd ac i helpu'r rhai hynny sydd â diddordeb mewn dechrau busnes i ddatblygu eu syniadau.

- Mae rhwydwaith o 365 o bobl sy'n Gosod Esiampl ac yn darparu gweithdai ysbrydoledig gan hyfforddi entrepreneuriaid y dyfodol.

- Mae'r gystadleuaeth Y Criw Mentrus ar gyfer ysgolion cynradd yn meithrin ysbryd entrepreneuraidd ac yn annog busnesau i gefnogi pobl ifanc.

- Mae'r Her Syniadau Mawr Cymru yn anelu at nodi y genhedlaeth nesaf o entrepreneuriaid ac i feithrin doniau ac uchelgeisiau entrepreneuriaid ifanc rhwng 16-24 mlwydd oed a'u helpu i lansio busnes.

- Mae Canolfannau Entrepreneuriaeth Rhanbarthol ar gyfer AB/AU yn codi ymwybyddiaeth ac yn hyrwyddo profiadau entrepreneuraidd ymarferol i helpu myfyrwyr fagu hyder yn eu syniadau a'u busnesau.


**Rhaglen Sbarduno Entrepreneuriaeth Ranbarthol (REAP)**

- Gwnaeth Gymru gais llwyddiannus i ymuno â REAP Massachusetts Institute of Technology (MIT) a ddechreuodd ym mis Hydref 2015.

- Mae MIT REAP yn fenter fyd-eang sydd wedi ei gynllunio i helpu rhanbarthau gyflymu eu rhaglen twf economaidd a chreu swyddi drwy entrepreneuriaeth sy'n cael ei sbarduno gan arloesedd.

- Dewisodd MIT 8 o ranbarthau sy'n bartneriaid rhyngwladol i gymeryd rhan fel carfan 3. Mae Cymru wedi ymuno â rhanbarthau o Bangkok, Gwlad Thai; Tokyo, Siapan: Beijing, Tseina: De-orllewin Norwy: Santiago, Chile: Ashdod, Israel ac Al Madinah, Saudi Arabia.

- O dan Gadeiryddiaeth Simon Gibson, Wesley Clover Corporation, y tîm yw:




Swansea University – Prifysgol Abertawe
University of the West of England – Prifysgol Gorllewin Lloegr
Welsh Government – Llywodraeth Cymru
Founder – Sylfaenydd
University – Prifysgol
Government – Llywodraeth
Corporate – Corfforaethol
Risk Capital – Cyfalaf Risg

- Daeth Pencampwyr REAP Cymru yn ôl o’r gweithdy cyntaf ym mis Hydref 2016 gan ddisgrifio REAP fel a ganlyn:

  *“Sefydlu anghenraid cenedlaethol am entrepreneuriaeth ac arloesedd ledled Cymru gan bob rhanddeiliad i greu mwy o gwmnïau proffidiol yng Nghymru sy’n creu cyfoeth*”

- Drwy alinio hyn gyda brand “This is Wales” ac o dan “#Be the Spark”, bydd y gwaith yn canolbwyntio ar greu symudiad yn seiliedig ar ryngwyneb digidol a chymunedol ble y mae symlrwydd, bod yn weladwy a chysyllted yn ganolog.

  - Yr hyn sy’n sail i REAP ywr trafod gyda phump o grwpiau rhanddeiliaid mawr: llywodraeth, cyrff corfforaethol, academia, cyfalaf risg, a’r gymuned entrepreneuraidd  o dan ewyddorion symylrwydd, cysylltedd a gwelededd.

- Yn dilyn ymarfer mapio eang o’r prif randdeiliaid, bydd y Panel yn trafod yn ehangach i sbarduno’r symudiad sydd wedi ei gynllunio ar gyfer gwanwyn 2017.

- Gan ddefnyddio fframweithiau MIT, roedd dadansoddiad o ecosystemau entrepreneuraidd Cymru yn nodi bod amgylchedd positif o ran polisïau ar gyfer

arloesedd ac entrepreneuriaeth, ond bod heriau'n gysylltiedig ag ariannu i fasnachu ymchwil a datblygu diwylliant entrepreneuraidd.

- I gefnogi trafodaethau gyda rhanddeiliaid, mae strategaeth gyfarthrebu yn cael ei datblygu ar hyn o bryd. Mae alinio hyn gyda brand "This is Wales" a strategaeth gyfathrebu "#Be the Spark", yn bwriad fydd canolbwyntio mwy ar greu symudiad, gan sicrhau bod symylrwydd, gweledfedd a chysylltedd yn greiddiol iddo.

**Cwmnïau Angori**

- Mae 52 Cwmni Angori yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu Cyfarwyddwr Cyfrifon a Rheolwr Cyfrif arbenigol i Gwmnïau Angori, y ddau ohonynt yn cydweithio'n agos i sicrhau bod amcanion Llywodraeth Cymru yn helpu i gefnogi busnesau yng Nghymru.

  http://gov.wales/topics/businessandeconomy/sectors/anchor/?lang=en

- Mae 58 Cwmni o Bwys Rhanbarthol sy'n bwysig iawn i ranbarth Cymru, ble y maent wedi'u lleoli. Y rheswm am hyn yw nifer y gweithwyr, ymrwymiad i ddatblygu gweithlu dawnus o fewn y gadwn gyflenwi a buddsoddiad mewn safle yng Nghymru.

**Ardaloedd Menter**

- Mae 8 Ardal Fenter ledled Cymru sy'n ardaloedd wedi'u dynodi'n ddaearyddol sy'n cefnogi busnesau newydd a busnesau sy'n ehangu trwy ddarparu seilwaith busnes a chymorth o'r safon uchaf. Mae pob un o'r Ardaloedd Menter yn canolbwyntio ar un neu fwy o sectorau busnes allweddol. Sef:

  - Ardal Fenter Ynys Môn –y sector ynni a'r amgylchedd.
  - Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd a Sain Tathan – gweithgynhyrchu uwch a deunyddiau, yn benodol yr is-sector awyrofod.
  - Ardal Fenter Canol Caerdydd –y sector gwasanaethau ariannol a phroffesiynol.
  - Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy –y sector gweithgynhyrchu uwch a deunyddiau.
  - Ardal Fenter Glyn Ebwy – gweithgynhyrchu uwch a deunyddiau.
  - Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau – y sector ynni a'r amgylchedd.
  - Ardal Fenter Eryri – ynni a'r amgylchedd, awyrofod/maes rocedi.
  - Glannau Port Talbot – gweithgynhyrchu uwch, ynni a'r amgylchedd a'r sectorau adeiladu.

- Mae Dangosyddion Perfformiad Allweddol Ardaloedd Menter 2015/16 yn dangos bod y prif ffigurau yn 1,960 o swyddi wedi'u cefnogi o gymharu â 1,860 yn 2014/15 a buddsoddiad o £70 miliwn o gymharu â £36.9 miliwn yn 2014/15.

**Ardaloedd Twf Lleol**

- Mae dwy ardal ym Mhowys a Dyffryn Teifi.  Y nod yw hyrwyddo opsiynau i gefnogi swyddi ac annog twf economaidd drwy roi cyfle i dreialu amrywiol brosiectau peilot sy'n sensitif i amgylchiadau economaidd lleol a heriau twf.

- Mae nifer o'r camau sy'n cael eu datblygu yn rhan o raglenni ehangach. Hefyd mae nifer o brosiectau penodol yn cael eu datblygu gyda chyllid ar wahân, gan gynnwys:
    - Amrywiol brosiectau o dan Ardal Twf Lleol Powys, gan gynnwys cymorth ar gyfer y dull sy'n cael ei arwain gan fusnesau ar gyfer adfywio lleol sy'n cael ei dreialu yn Llandrindod, gan gynnwys cyllid ar gyfer hyrwyddwr tref.
    - Prosiect effaith Dyffryn yr Afon Hafren, yn seiliedig ar fodel Sirroli o hwyluso economaidd.
    - Prosiect peilot yn Nyffryn Teifi ar fusnesau sy'n defnyddio'r Gymraeg.